# Y CYNGOR DYDD IAU, 7 MAWRTH 2019

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams a Gruffydd Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) (ar gyfer eitem 7), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (ar gyfer eitem 13), Emlyn Jones (Uwch Reolwr Ymgynghoriaeth Gwynedd) (ar gyfer eitem 14), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) (ar gyfer eitem 8), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) (ar gyfer eitem 9), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) (ar gyfer eitem 13) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Linda Ann Jones, Dafydd Meurig, Rheinallt Puw ac Owain Williams.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2018 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Aled Wyn Jones fuddiant personol yn eitem 16(B) – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd - oherwydd bod perthynas iddo yn gweithio i'r Canolfannau Iaith.

Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Swyddog Monitro fuddiant personol yn eitem 8 - Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor 2019/20 - ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, gadawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorwyr Dewi Owen, Beth Lawton a Rheinallt Puw ar golli anwyliaid yn ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Y criw o Gynghorwyr a enwebwyd gan Prostate Cymru am wobr ar ôl codi dros £8,000 i Elusen Prostate Cymru yn ystod digwyddiad "Trôns dy Dad" yn Awst 2018. Nodwyd y byddai'r Cynghorwyr Dilwyn Lloyd, Roy Owen a Steven Churchman yn mynd i'r seremoni wobrwyo yng Nghaerdydd ym mis Ebrill.
- Ysgol Gynradd Dolbadarn Llanberis ar ennill cystadleuaeth Côr yr Ŵyl, rhaglen Heno ym mis Rhagfyr.
- Ysgol Bro Idris, Dolgellau ar ennill un o wobrau cystadleuaeth GTPM (STEM) 'Ffermfeisio' yr NFU - un o naw ysgol gynradd i ennill ystod o wobrau cystadleuaeth Ffermfeisio. Nodwyd bod y disgyblion bellach yn cynllunio ar gyfer arddangos eu dyluniad yn Nhŷ'r Cyffredin yn ystod Wythnos Wyddoniaeth Prydain, pan fyddai'r panel o feirniaid yn penderfynu ar bencampwyr y gystadleuaeth gyfan.
- Jess Kavanagh, Swyddog Pobl Ifanc Egnïol yn yr Adran Economi a Chymuned ar ei llwyddiant diweddar yn y maes rygbi.
- Darren Bingham o Ddeiniolen ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru mewn dartiau am y tymor.

Dymunwyd yn dda i'r Cynghorwyr Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid) a W.Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) fyddai'n camu i lawr o'r Cabinet ddiwedd y mis ar ôl cyfnod hir o wasanaeth.

Nodwyd, mewn rali yng Nghaernarfon yn ddiweddar, y bu i Is-gadeirydd y Cyngor dderbyn deiseb yn gofyn i'r Cyngor hwn ddatgan argyfwng hinsawdd, a bod cynnig ar y mater yma eisoes ar raglen y cyfarfod hwn.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Dim i'w nodi.

**6. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**7. CWESTIYNAU**

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cefnogaeth ariannol er mwyn datblygu llwybrau beicio, yn cynnwys llwybr beicio o Fethel i Gaernarfon. Mae ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon eisoes wedi cychwyn adeiladu. Oes modd sicrhau bod y cynllun llwybr beicio Bethel i Gaernarfon yn cael ei wireddu, ac oes angen mwy o arian gan y Llywodraeth, i ddechrau’r trafodaethau cyn gynted â phosib’?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

“Mae’r ateb ysgrifenedig gan y gwasanaeth yn amlygu eu hymdrechion hwy i geisio cael y llwybr beicio i gyd-redeg, neu i fod yn rhan, o’r cynllun ffordd osgoi newydd a hefyd y sawl cais grant mae nhw wedi gyflwyno i gael y llwybr beicio yma a llwybrau beicio eraill yn ogystal ar draws y sir.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Os oes angen i ni gael mwy o arian ar gyfer gwireddu’r cynlluniau llwybrau beicio yma, oes modd i’r Arweinydd gysylltu â mi, i geisio cysylltu hefo’r Gweinidog, ar gyfer symud hyn ymlaen ar ran Bethel a Chaernarfon, ond hefyd ar ran y sir?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

“Yn sicr, os byddwn ni angen help llaw i yrru’r neges yn ôl i’r mannau priodol mi wnawn gysylltu â’r aelod a byddwn yn falch iawn o gael ei help.”

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Elwyn Jones**

“Blwyddyn ers cychwyn ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid, ac yn unol â’r weledigaeth oedd yn Opsiwn 3, ydi’r Aelod Cabinet, sydd â chyfrifoldeb am y Gwasanaeth yn gallu cadarnhau fod yna bellach 19 o weithwyr ieuenctid llawn-amser – 14 yn ychwanegol i’r 5 a gadwodd eu swyddi – a 21 o weithwyr rhan-amser wedi eu penodi i symud y Gwasanaeth yn ei flaen?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Craig ab Iago**

“Fel y gwelwch o’r ateb ysgrifenedig byr, mae gennym ni lond tŷ hefo’r gweithwyr llawn amser, ond ddim cweit yna hefo’r gweithwyr rhan amser.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Elwyn Jones**

“Ydi’r £50,000 a glustnodwyd llynedd ar gyfer clybiau gwirfoddol, cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol, ayb, wedi ei hawlio?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Craig ab Iago**

“Mae’r gwasanaeth newydd yn mynd o nerth i nerth a dim ond pethau positif rwy’n glywed. Rydym ni’n cydweithio’n galed iawn hefo clybiau cymunedol i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn lle bynnag yn cael be mae nhw angen. Os ydych chi eisiau ffigurau penodol am faint o bres yn union sydd wedi’i wario o’r pot yna, gallwn ffendio allan i chi, dim problem.”

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Aeron Jones**

“Mae polisi Canu Gloch y Cyngor yma i ddiogelu staff a defnyddwyr y Cyngor. Roedd hwn yn rhywbeth rwyf i yn bersonol wedi bod yn gwthio’r Cyngor hwn ers 2008 i weithredu arno, ac yn bwysicach, i ddiogelu unigolion sy’n penderfynu dilyn y trywydd hwn. A all yr Aelod Cabinet ddweud wrthyf faint o unigolion yn y Cyngor yma sydd wedi defnyddio’r system ‘Canu’r Gloch’ i adrodd am reolwyr sydd wedi torri rheolau’r Cyngor yma ers 2015?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

“Mae’r polisi ar Ganu’r Gloch yn y Cyngor wedi’i sefydlu er mwyn annog gweithwyr sy’n bryderus ynghylch camymarfer i deimlo’n ddigon hyderus i ddod ymlaen a rhannu eu pryderon. Mae’r polisi yn datgan y dylai gweithwyr ddefnyddio’r polisi hwn os ydynt yn rhesymol amau bod yna gamymarfer neu drosedd wedi cymryd lle, ar fin digwydd neu efallai am ddigwydd. Cydnabyddir bod yr Aelod wedi bod yn arddel codi ymwybyddiaeth ymysg y gweithlu ynglŷn â bodolaeth a chynnwys y Polisi hwn dros y blynyddoedd. Un o'r ffyrdd o godi ymwybyddiaeth oedd i ddosbarthu cerdyn cyswllt i bob aelod o staff yn ogystal â chynnwys y cerdyn yn y pecyn penodi pan fo aelod o staff newydd yn cychwyn hefo’r Cyngor.

Ers 2015, mae’r polisi ‘Canu’r Gloch’ wedi’i ddefnyddio gan aelodau staff ar dri achlysur gydag un achos o adrodd ar reolwr ac un arall o adrodd ar reolwr a chydweithwyr.

Mae’n bwysig nodi, fodd bynnag, bod aelodau staff eraill wedi dewis peidio dilyn Polisi Canu’r Gloch ac wedi ceisio datrysiad i sefyllfaoedd trwy’r Drefn Gwyno a’r Drefn Ddisgyblu.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Aeron Jones**

“Pa bryd mae Cyngor Gwynedd am fod yn gwarchod unigolion sy’n chwythu y chwiban go iawn?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

“Mae’r polisi Canu’r Gloch yn ofnadwy o bwysig i mi, ac yn bwysicach na’r polisi hyd yn oed, ydi bod staff yn gallu ymddiried ynddo. Os nad ydi’r staff yn ffyddiog bod y polisi yn mynd i gael ei weithredu’n iawn, does dim gwerth iddo, ac mae hwn yn bwynt rwy’n gymryd yn ofnadwy o ddifri’. Mae yna dipyn o dystiolaeth ar hyn sy’n rhoi hyder i mi bod y polisi yn gweithio yng Ngwynedd. E.e. mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal dau ymarferiad dros y 4 blynedd ddiwethaf i asesu lefel ymwybyddiaeth a hyder staff yn yr union bolisi yma. Felly roedd 81% o’r staff wnaeth ateb yr holiadur yn 2014/15 yn dweud eu bod yn gwybod am y polisi ac erbyn 2017/18, ‘roedd 87% yn dweud hynny. Mae staff yn dweud eu bod wedi dysgu am y polisi drwy gyfuniad o ganolfan bolisi ar lein, sesiynau anwytho, trwy eu rheolwyr, gan gydweithwyr, o adnoddau dynol, y cerdyn cyswllt, trwy’r undebau a hefyd mae yna bosteri o gwmpas y Cyngor. Fel rhan o’r ymarferiad gofynnwyd i staff roi sgôr 1-5 yn eu hyder hwy yng ngweithrediad y polisi. Y sgôr cyfartalog oedd 3.1 yn 2014/15 ac roedd hyn wedi cynyddu i 3.4 erbyn 2017/18. Wedi dweud hyn, ‘rwy’n dallt yn iawn bod cymryd y cam o ganu’r gloch ar eich rheolwr neu eich cydweithwyr yn un ofnadwy o anodd ac yn un sy’n rhoi straen mawr ar unrhyw berson, yn enwedig os ydych chi’n amau eu bod wedi gwneud gweithred anghyfreithlon neu dywyllodrys neu lygredig.

Felly mae angen i bob un o aelodau'r Cyngor a'r uwch swyddogion chwarae eu rhan yn rhoi hyder i staff fel bod materion fel hyn sy'n dod i'r fei yn cael eu delio hefo nhw. Rydw i'n gwybod y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal ymarferiad tebyg eto yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a bydd canlyniadau'r gwaith hwnnw o ddiddordeb mawr i mi. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd herio perfformiad a bydd hefyd yn rhoi arweiniad sut y gallwn godi mwy o ymwybyddiaeth a chynyddu hyder ymhellach fyth. Rydw i'n ddiolchgar iawn i'r Cynghorydd am godi'r mater ac am roi cyfle i mi siarad am y polisi hynod o bwysig yma ac efallai bod o wedi helpu i godi ychydig o ymwybyddiaeth am y pwnc yn y Cyngor llawn. Mae gen i bentwr o'r cardiau bach Canu'r Gloch ac mi wnaf yn siŵr eu bod yn cael eu rhoi ym mlychau post pob cynghorydd hefyd."

## 8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TÂL Y CYNGOR 2019-20

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2019/20.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd y cynnydd cyffredinol o 2% ar gyflogau 2019/20, gyda staff ar y graddfeydd isaf yn derbyn canrannau uwch, sy'n golygu y bydd isafswm cyflog y Cyngor o fis Ebrill 2019 ymlaen uwchlaw Cyflog Byw Sefydliad y Cyflog Byw.
- Croesawyd y ffaith bod y Cyngor yn lleihau'r bwlch rhwng cyflogau'r uwch swyddogion a'r cyflogau isaf, ac felly'n lleihau anghyfartaledd cymdeithasol.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod y gymhareb rhwng uchafswm ac isafswm cyflog yng Ngwynedd ymhlith yr isaf yng Nghymru ac y byddai'n gostwng ymhellach ar ôl y newidiadau fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Tâl drafft ar gyfer 2019/20 yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

## 9. CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23 – ADOLYGIAD 2019-20

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2018-23 (Adolygiad 2019/20).

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd y cynllun a nodwyd ei fod yn dangos bod y Cyngor yn ceisio cyflawni i bobl Gwynedd, a hynny mewn cyfnod o gynni ariannol.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gosod cyfeiriad newydd i'r maes trechu tlodi, eglurodd yr Arweinydd y bwriedid creu Bwrdd Llesiant Pobl, yn cynnwys cynrychiolaeth o'r gwasanaethau plant, ieuenctid, ayb, i edrych ar y maes tlodi a chefnogaeth teuluoedd ar draws holl waith y Cyngor. Gobeithid y byddai hynny'n rhoi cyfeiriad a phwyslais newydd i'r Cyngor yn y maes pwysig yma, yn arbennig mewn ardal sy'n dioddef o dlodi nad sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol.
- Nodwyd bod tua 38% o arian y Cyngor yn cael ei wario y tu allan i'r sir, a holwyd pa waith sydd ar droed i geisio uchafu'r ganran sy'n cael ei wario'n lleol. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd fod hyn yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac y credai bod Gwynedd ar flaen y gad o safbwynt caffael yn lleol.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gweledigaeth yr Arweinydd ar gyfer addysg ôl-16, manylwyd ar y cydweithio rhwng y Cyngor hwn, Cyngor Ynys Môn a Grŵp Llandrillo Menai gyda'r nod o ddod â gwahanol opsiynau gerbron maes o law.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y gellir denu mwy o ferched i ddod ar y Cyngor, nododd yr Arweinydd ei fod yn llwyr ymwybodol o'r broblem, a hefyd y broblem o ddenu pobl ifanc, pobl mewn swyddi, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl o gefndiroedd eraill ar y Cyngor. Roedd wedi lleisio ei farn i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, oedd hefyd yn ymwybodol iawn o'r broblem. Ychwanegodd fod llwyth gwaith cynghorwyr, yn enwedig Aelodau Cabinet a chadeiryddion craffu, wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd, fel ei fod fwy neu lai yn waith llawn amser erbyn hyn, ac roedd yn anodd iawn i aelodau gynnal gyrfa a chyflawni swydd cynghorydd ar yr un pryd. Credai fod yr ateb yn ymwneud yn rhannol â thelerau'r swydd, ond ni ragwelai unrhyw newid mawr yn y cyfeiriad, heb uno'r cynghorau a lleihau niferoedd cynghorwyr yn sylweddol. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig bod aelodau â chyfrifoldebau gofalu yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, er mwyn cryfhau'r gynrychiolaeth ddemocrataidd. Nododd hefyd y byddai yna ymgyrch ar adeg pob etholiad i geisio denu pobl o bob cefndir i sefyll etholiad.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi ymrwymo i'r cynllun prentisiaethau a bod yna gyfleoedd da iawn ymhob gwasanaeth. Er bod y Cyngor wedi colli £70m (25%) o'i gyllideb dros y 10 mlynedd ddiwethaf, roedd yna enghreifftiau gwych o bobl ifanc yn cychwyn gyrfa gyda'r Cyngor fel prentisiaid ac yn symud ymlaen i swyddi o safon uchel.
- Mewn ymateb i sylw ynglŷn â siopau gweigion a busnesau'n cau yn y trefi, nododd yr Arweinydd ei fod yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar yr economi wledig a'r pwysau fydd yn ein wynebu yn y dyfodol agos os bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Pwysleisiodd fod yr economi yn flaenoriaeth uchel iddo ef yn bersonol a'i fod yn cyd-weithio gydag arweinwyr siroedd eraill y Gogledd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Roedd hefyd yn gyd-gadeirydd Fforwm Wledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i gymryd sylw o broblemau neilltuol ardaloedd gwledig wrth ddatblygu'r economi. Cadarnhaodd y byddai'n brwydro'n galed i gael gwaith o safon uchel i bobl yng nghefn gwlad Gwynedd.
- Croesawyd yr ariannu ym Mangor gan edrych ymlaen at gael canolfan ranbarthol wych yn y ddinas.
- Nodwyd nad oedd cyfeiriad yn y cynllun at boblogaeth Gwynedd sydd ag awtistiaeth a holwyd pa ddarpariaeth sydd gan y Cyngor ar gyfer pobl ag awtistiaeth. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd y dylai hyn fod yn rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor, ond petai yna brosiectau o ran y maes awtistiaeth y dylid eu huchafu, gellid edrych ar hynny ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r cynllun.
- Holwyd beth oedd diben y cynllun, os nad oedd yr arian ar gael i wireddu'r amcanion. Er enghraifft, o dan Strategaeth Cartrefi Pobl Gwynedd, oni fyddai'n fwy realistig dweud bod y Cyngor yn '*dymuno'*, neu'n '*chwilio am ffyrdd'* o ganfod cartrefi addas i bobl Gwynedd, yn hytrach na dweud ei fod am '*sicrhau'* hynny. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn adnabod y maes tai fel un sydd angen sylw. Bwriedid cyflwyno'r Strategaeth Dai i'r Cabinet yn fuan ac roedd y Cyngor mewn trafodaethau gyda'r cymdeithasau tai ynglŷn â sut orau i gyfarch yr angen sy'n bodoli. Ychwanegodd, er gwaethaf y cyfyngiadau, ei bod yn bwysig rhoi blaenoriaeth i'r materion hyn gan ddefnyddio hynny o arian sydd ar gael i'w lawn botensial i gyflawni peth o'r angen.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2019-23 (Adolygiad 2019/20).**

## 10. CYLLIDEB 2019-20

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid:-

- Adroddiad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2019/20;

- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 5.8%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid y disgwylid cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y diwrnod hwnnw ynglŷn ag ariannu'r cynnydd o £1.6m mewn cyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn athrawon. Eglurodd y Pennaeth Cyllid yr argoelid y byddai'r Cyngor yn derbyn swm grant agos at ariannu'r gofyn yn llawn, fel roedd Llywodraeth Lloegr wedi'i addo i ysgolion yno. Ni dderbyniwyd cadarnhad o'r union swm yng Nghymru hyd yma, ond cafwyd arweiniad y byddai rhwng 80% a 100% o'r cyfanswm.

Yn ystod y drafodaeth, nododd rhai aelodau na allent gefnogi'r argymhelliad i godi'r dreth 5.8%, oherwydd effaith hynny ar drigolion sir dlawd fel Gwynedd. Bu i nifer o aelodau eraill ddatgan, er yn gwbl anhapus ynglŷn â'r sefyllfa, nad oeddent o'r farn bod gan y Cyngor ddewis ond derbyn y gyllideb yn y sefyllfa sydd ohoni.

Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd pryder ynglŷn ag effaith y cynnydd treth ar y bobl hynny sydd ar gyflogau bach, ond fymryn uwchlaw'r trothwy hawlio Gostyngiad Treth Cyngor, a chynigiwyd y dylai grŵp o aelodau o'r holl bleidiau gwleidyddol ar y Cyngor fynd i lawr i Gaerdydd i gefnogi'r Arweinydd yn ei ymgyrch i lobïo'r Llywodraeth am ragor o arian.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag ariannu tair rhagdybiaeth yn yr adroddiad, eglurodd yr Aelod Cabinet Cyllid:-
    - Ei fod yn ffyddiog y byddai'r bwlch rhwng yr arian grant a ddisgwylir gan y Llywodraeth a chyfraniad y cyflogwr at bensiwn athrawon yn gyraeddadwy, ac os ddim, yna byddai trafodaethau pellach gyda'r ysgolion.
    - Bod y £2.7m o dreth ychwanegol o'r premiwm ar ail gartrefi a thai gweigion wedi'i glustnodi mewn cronfa tuag at y Strategaeth Tai, a bod y gyllideb gerbron yn hafal heb arall-gyfeirio'r cynnyrch premiwm.
    - O ran ariannu unrhyw chwyddiant o ganlyniad i Brexit, bod y Cyngor ar dir cadarn gan ei fod yn adeiladu hyblygrwydd i mewn i'w gyllideb, a phetai'r gofyn yn mynd y tu hwnt i hynny, gellid ystyried defnyddio elfen o'r balansau.
- Nodwyd na ddymunid rhoi pwysau ychwanegol ar drigolion y sir, sy'n wynebu heriau dyddiol, ond bod y Cyngor yn wynebu ei heriau cynyddol ei hun hefyd, a hynny o ganlyniad i bolisïau anwaraidd Llywodraethau Cymru a San Steffan.
- Gyda'r llywodraethau'n gadael pobl i lawr gyda grant annigonol i gwrdd â chwyddiant, heb sôn am gynnydd mewn galw am wasanaethau awdurdodau lleol, bod gwarchod gwasanaethau, yn enwedig Addysg a Gofal Cymdeithasol, yn bwysicach nag erioed.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod cefnogaeth ar gael i unigolion sy'n gwneud cais am gymorth. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid y gallai sicrhau bod swyddogion Cyllid yn barod iawn i helpu unrhyw un sy'n cael problem talu'r dreth.
- Mynegwyd siomedigaeth bod cymaint o'r gwasanaethau yn ddibynnol ar y sector wirfoddol erbyn hyn, a chredid mai'r unig ateb i hyn oedd uno'r cynghorau. Mewn ymateb, sicrhaodd yr Aelod Cabinet Cyllid fod siom sylweddol wedi'i fynegi trafodaethau gyda Gweinidogion y Llywodraeth ynglŷn â'r ffordd y cyhoeddwyd y setliad. Cyfeiriodd hefyd at waith oedd yn mynd rhagddo ar draws Cymru i ddangos effaith y toriadau ar lawr gwlad a gobeithid dwyn rhywfaint mwy o ddylanwad ar y Gweinidog Cyllid newydd.
- Cyfeiriwyd at yr arfer cynyddol o drosi tai haf yn fusnesau i osgoi talu treth cyngor a nodwyd camau oedd eisoes ar droed i lobïo'r Llywodraeth i roi terfyn ar yr annhegwch yma.

- Mewn ymateb i sylw bod y Cyngor hwn wedi benthyg £91m o arian trethdalwyr i gynghorau eraill, eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y swm hwnnw gyhoeddwyd yn y wasg yn gyfanswm nifer o fenthyciadau llai dros 3 blynedd. Nid oedd mwy na £12m wedi'i fenthyg i gynghorau eraill ar unrhyw adeg a dim mwy na £3m i unrhyw gyngor unigol. Esboniodd fod y cynghorau yn talu llog uwch na'r banciau a bod yr arian adneuwyd yno hefyd yn fwy diogel na'r banciau a chafwyd asesiadau credyd ar eu cyfer.
- Awgrymwyd y dylai'r Cyngor ddefnyddio ei arian wrth gefn i roi benthyciad i bobl ifanc y sir i'w galluogi i brynu eu tai eu hunain. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r Strategaeth Tai arfaethedig yn cynnwys amrywiol gynlluniau i helpu pobl ifanc.
- Awgrymwyd y dylid addasu rhywfaint ar y cynllun parcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor dros gyfnod y Nadolig er atal gweithwyr rhag parcio yno drwy'r dydd. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y Cabinet wedi gofyn i'r Adran Amgylchedd edrych i mewn i'r drefn parcio'n di-dâl, gan arddangos ychydig o hyblygrwydd a dychymyg.
- Awgrymwyd bod y Cyngor wedi casglu 97.3% o'r dreth gyngor ac felly bod £4.189m heb ei gasglu, a bod Gwynedd y 5ed isaf ymhlith cynghorau Cymru am gasglu'r arian. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y 97.3% yn cyfeirio at y swm a gasglwyd o fewn y flwyddyn ariannol honno'n unig. Ar gyfer unrhyw flwyddyn, roedd tua 99.5% yn cael ei gasglu yn y pen draw, ar ôl casglu'n sensitif a rhoi cyfnod estynedig i rai o drigolion anghenus Gwynedd, ond mai'r ganran o fewn y flwyddyn sy'n cael ei gymharu mewn ystadegau cenedlaethol.
- Nodwyd, er bod ambell gyngor wedi cynyddu'r dreth yn fwy na Gwynedd, bod eu gwaelodlin hwy ar Band D yn is na'r Cyngor hwn ac mai Gwynedd oedd y 6ed drutaf yng Nghymru am drethi ar Band D. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid fod 60% o dai Gwynedd yn Band C ac is. Eglurodd fod lefel treth Gwynedd yn uwch oherwydd y ffordd y dyrannwyd arian grant hanesyddol ar adeg ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 ac roedd y cynnydd treth y pleidleisiwyd arno yn y blynyddoedd ers hynny yn is na'r cyfartaledd Cymreig.
- Gofynnwyd i gynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod Tân a'r Awdurdod Heddlu herio'r cynnydd ym mhraesept ac ardollau'r awdurdodau hynny.
- Nodwyd bod y cynnydd ar gyfartaledd o 6.5% ym mhraeseptau'r Cynghorau Cymuned yn ddealladwy, gan iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, megis clybiau ieuenctid, toiledau cyhoeddus, torri gwair a chodi sbwriel ar ochr y ffyrdd.
- Nodwyd ei bod yn bwysig pwysleisio nad dyma'r gyllideb y byddai'r Cyngor wedi dymuno ei chael ar gyfer trigolion Gwynedd, a bod y Cyngor yn cydnabod y goblygiadau a'r rhwystredigaeth mae hyn oll yn olygu i drigolion Gwynedd.
- Nodwyd bod y Cyngor yn gaeth i benderfyniadau sy'n digwydd ymhell o Wynedd, ac wrth i bawb ddiflasu ar weld cylch ar ôl cylch o doriadau a chyfyngiadau, roedd yn bwysig atgoffa pobl bod dwylo'r Cyngor wedi eu clymu a bod y llymder ariannol yma wedi ei draddodi o Lundain i Gaerdydd, ac o Gaerdydd i ni yma yng Ngwynedd.
- Nodwyd, yn ystod y 9 mlynedd ddiwethaf, bod gwerth y grantiau i'r 22 cyngor yng Nghymru wedi gostwng dros £1b, sef gostyngiad o dros 20% mewn termau real. Yng nghanol hyn oll, gwerthfawrogid bod y Cyngor yn parhau i ddiogelu gwasanaethau pwysig ac yn cadw'r cynnydd yn y dreth mor isel â phosib'.
- Nodwyd bod angen herio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan iddynt hwythau fod yn aneffeithiol yn eu hymdrechion i lobïo'r Llywodraeth yn y mater hwn.
- Cyfeiriwyd at y cynlluniau arbedion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, ond y penderfynodd y Cabinet beidio eu gweithredu (Atodiad 3 i'r adroddiad). Nodwyd bod hyn yn newyddion cadarnhaol dros ben a byddai'r codiad treth o 5.8% yn parhau i ariannu rhai gwasanaethau gwerthfawr.
- Nodwyd bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfeirio at gynnydd treth o 5.5%, yn hytrach na 5.8%. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Cyllid mai dyna'r ffigur a gyflwynwyd i'r pwyllgor, ond y cynhaliwyd y

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn i'r Cabinet argymell yr union dreth. Ychwanegodd fod y newid o 5.5% i 5.8% er mwyn cyfarch y materion fu'n rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, ond y penderfynodd y Cabinet beidio eu gweithredu.

- Nodwyd bod y Cyngor mewn sefyllfa amhosib'. Er bod pobl o fewn y sir yn dibynnu ar fanciau bwyd, roedd y Cyngor yn cynyddu'r dreth tua £70 y tŷ. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid fod dyletswydd ar yr holl aelodau i ysgrifennu at eu haelodau Seneddol a Chynulliad i ddwyn pwysau am well setliad i'r Cyngor.
- Mynegwyd siomedigaeth bod cynifer o gwestiynau wedi codi yng nghyfarfod y Cyngor, er i bawb gael cyfle i godi'r cwestiynau hyn yn y gyfres o weithdai aelodau ar y gyllideb.
- Holwyd ai bwriad y Llywodraeth oedd tynnu'r gwaed allan o'r cynghorau sir er mwyn cael gwared ohonynt, ac annogwyd yr Arweinydd i godi'r cwestiwn yma ar ran y cynghorwyr gyda Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

**1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-**

**(a) Sefydlu cyllideb o £248,013,890 ar gyfer 2019/20, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790 a £71,462,100 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 5.8%.**

**(b) Ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20 er mwyn sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad**

**2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 19 Tachwedd 2018, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2019/20 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

**(a) 51,926.38 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **553.03** | **Llanddeiniolen** | **1,836.69** |
| **Aberdyfi** | **977.73** | **Llandderfel** | **497.72** |
| **Abergwyngregyn** | **118.92** | **Llanegryn** | **159.72** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,154.94** | **Llanelltyd** | **288.42** |
| **Arthog** | **617.35** | **Llanengan** | **2,119.89** |
| **Y Bala** | **774.71** | **Llanfair** | **309.59** |
| **Bangor** | **3,885.63** | **Llanfihangel y Pennant** | **216.38** |
| **Beddgelert** | **316.54** | **Llanfrothen** | **221.28** |
| **Betws Garmon** | **138.73** | **Llangelynnin** | **409.42** |
| **Bethesda** | **1,674.96** | **Llangywer** | **137.30** |
| **Bontnewydd** | **432.27** | **Llanllechid** | **340.89** |
| **Botwnnog** | **447.42** | **Llanllyfni** | **1,411.04** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **424.51** | **Llannor** | **901.93** |
| **Bryncrug** | **341.95** | **Llanrug** | **1,135.80** |
| **Buan** | **228.88** | **Llanuwchllyn** | **312.51** |
| **Caernarfon** | **3,543.60** | **Llanwnda** | **783.86** |
| **Clynnog Fawr** | **447.08** | **Llanycil** | **200.54** |
| **Corris** | **303.66** | **Llanystumdwy** | **866.24** |
| **Criccieth** | **944.01** | **Maentwrog** | **280.90** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dolbenmaen** | **606.10** | **Mawddwy** | **350.59** |
| **Dolgellau** | **1,228.41** | **Nefyn** | **1,474.65** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **812.10** | **Pennal** | **220.86** |
| **Y Felinheli** | **1,157.21** | **Penrhyndeudraeth** | **772.99** |
| **Ffestiniog** | **1,745.06** | **Pentir** | **1,188.82** |
| **Y Ganllwyd** | **86.50** | **Pistyll** | **252.01** |
| **Harlech** | **791.40** | **Porthmadog** | **2,014.59** |
| **Llanaelhaearn** | **443.57** | **Pwllheli** | **1,753.45** |
| **Llanbedr** | **322.90** | **Talsarnau** | **321.85** |
| **Llanbedrog** | **713.19** | **Trawsfynydd** | **507.98** |
| **Llanberis** | **759.06** | **Tudweiliog** | **461.40** |
| **Llandwrog** | **1,029.14** | **Tywyn** | **1,605.03** |
| **Llandygai** | **990.62** | **Waunfawr** | **560.86** |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2019/20 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

| | |
|---|---|
| **(a) £380,182,830** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).** |
| **(b) £130,295,020** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).** |
| **(c) £249,887,810** | **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).** |
| **(ch) £176,081,773** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.** |
| **(d) £1,421.36** | **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).** |
| **(dd) £2,343,940** | **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).** |

(e) £1,376.22

Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,403.34 | Llanddeiniolen | 1,393.53 |
| Aberdyfi | 1,412.87 | Llandderfel | 1,394.30 |
| Abergwyngregyn | 1,401.45 | Llanegryn | 1,407.52 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,425.83 | Llanelltyd | 1,402.22 |
| Arthog | 1,395.66 | Llanengan | 1,399.81 |
| Y Bala | 1,407.20 | Llanfair | 1,418.21 |
| Bangor | 1,475.36 | Llanfihangel y Pennant | 1,427.42 |
| Beddgelert | 1,406.23 | Llanfrothen | 1,409.21 |
| Betws Garmon | 1,394.96 | Llangelynnin | 1,400.16 |
| Bethesda | 1,431.42 | Llangywer | 1,405.35 |
| Bontnewydd | 1,419.02 | Llanllechid | 1,399.69 |
| Botwnnog | 1,388.51 | Llanllyfni | 1,410.82 |
| Brithdir a Llanfachreth | 1,390.35 | Llannor | 1,396.35 |
| Bryncrug | 1,412.37 | Llanrug | 1,420.24 |
| Buan | 1,392.60 | Llanuwchllyn | 1,408.22 |
| Caernarfon | 1,432.23 | Llanwnda | 1,411.94 |
| Clynnog Fawr | 1,409.77 | Llanycil | 1,396.17 |
| Corris | 1,403.96 | Llanystumdwy | 1,393.54 |
| Criccieth | 1,420.71 | Maentwrog | 1,397.76 |
| Dolbenmaen | 1,405.92 | Mawddwy | 1,401.38 |
| Dolgellau | 1,425.06 | Nefyn | 1,420.30 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,419.32 | Pennal | 1,403.39 |
| Y Felinheli | 1,410.79 | Penrhyndeudraeth | 1,425.64 |
| Ffestiniog | 1,499.42 | Pentir | 1,418.28 |
| Y Ganllwyd | 1,410.90 | Pistyll | 1,415.90 |
| Harlech | 1,464.67 | Porthmadog | 1,406.38 |
| Llanaelhaearn | 1,432.58 | Pwllheli | 1,417.85 |
| Llanbedr | 1,420.17 | Talsarnau | 1,438.36 |
| Llanbedrog | 1,402.86 | Trawsfynydd | 1,411.65 |
| Llanberis | 1,413.11 | Tudweiliog | 1,391.39 |
| Llandwrog | 1,429.66 | Tywyn | 1,431.13 |
| Llandygai | 1,397.83 | Waunfawr | 1,397.62 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym

**mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2019/20 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 185.40 | 216.30 | 247.20 | 278.10 | 339.90 | 401.70 | 463.50 | 556.20 | 648.90 |

**5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2019/20 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

## 11. CYNLLUN ASEDAU 2019/20 – 2028/29

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid adroddiad yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Asedau am y cyfnod 2019/20 – 2028/29.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau arian wrth gefn er mwyn gallu elwa ar unrhyw grantiau sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun Asedau ynghlwm i'r adroddiad fel ei Gynllun Asedau am y cyfnod 2019/20 – 2028/29.**

## 12. STRATEGAETH CYFALAF 2019-20

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. 'Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o sut y rheolir risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Gan mai hwn oedd ei gyfarfod olaf fel Aelod Cabinet Cyllid, diolchodd y Cynghorydd Peredur Jenkins i'r Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwyr am bob cymorth ar hyd y blynyddoedd ac i'r Prif Weithredwr am ei arweiniad. Diolchodd hefyd i'r aelodau am eu cefnogaeth barod bob amser.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2019/20.**

## 13. DATGANIAD O BOLISI HAPCHWARAE CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2019-2022

Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn cyflwyno Datganiad o Bolisi Hapchwarae Drafft ar gyfer 2019-22, yn unol â'r gofyn yn Adran 349 Deddf Hapchwarae 2005 i Awdurdodau Trwyddedu, bob 3 blynedd, baratoi a chyhoeddi datganiad o egwyddorion Trwyddedu maent yn dymuno eu rhoi ar waith wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf honno.

Diolchwyd i'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a'r tïm am eu holl waith.

Nododd aelod fod y Pwyllgor Trwyddedu wedi ysgrifennu at y Llywodraeth yn galw am wahardd hysbysebion gamblo cyn 9 o'r gloch.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad o Bolisi Hapchwarae fel ei fod yn weithredol ar gyfer 2019-22, yn unol â chylch adolygiad statudol y Ddeddf.**

**14. GWEITHREDU IS-DDEDDFAU DRAENIO TIR**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol adroddiad yn gofyn i'r Cyngor ystyried cymeradwyo Is-ddeddfau Traenio Tir Drafft (yn y ffurf a argymhellid gan Lywodraeth Cymru) a bod y cyfryw is-ddeddfau yn cael eu gwneud yn ffurfiol yn enw'r Cyngor.

Croesawyd yr Is-ddeddfau hyn a nodwyd y byddai agor mwy o ffosydd o gymorth i atal a rheoli llifogydd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Is-ddeddfau Traenio Tir Drafft (yn y ffurf a argymhellir gan Lywodraeth Cymru) a bod y cyfryw is-ddeddfau yn cael eu gwneud yn ffurfiol yn enw'r Cyngor.**

**15. CALENDR PWYLLGORAU 2019-20**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2019/20.**

**16. RHYBUDDION O GYNNIG**

(1) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Sion Jones o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Bod y Cyngor hwn yn cefnogi ymgyrch 'Lucy's Law' i wahardd gwerthu cŵn gan werthwyr masnachol trydydd parti."**

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig gan aelodau a nododd:-

- Yr ategir yr alwad ar i gynghorwyr Gwynedd ymuno â chynghorau eraill yng Nghymru i gefnogi'r ymgyrch i ddod â dioddefaint anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio mewn ffermydd cŵn bach a chathod bach i ben.
- Ei bod yn annerbyniol bod pobl yn gallu gwneud arian heb ystyried anghenion a lles yr anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio i fridio yn y modd hwn.
- Nad oes gan y diwydiant hwn le mewn cymdeithas waraidd, ac anogir Llywodraeth Cymru i ddod â deddfwriaeth gerbron mor fuan â phosib' er mwyn dirwyn yr arfer creulon hwn i ben.
- Y dylid cwrdd â'r galw am gŵn a chathod bach mewn ffordd drugarog. Ni ddylid ei wneud at ddibenion ymelwa ac mae Deddf Lucy yn gyfle gwych i sicrhau ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n ddiogel i'r anifeiliaid.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.**

(2) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Gan gydnabod mai mater i'r Cabinet yw unrhyw benderfyniad ar y mater, bod y Cyngor hwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw gynllun neu fwriad i newid cyfansoddiad, trefniadaeth na staffio Canolfannau Iaith Gwynedd, yn wyneb eu llwyddiant digamsyniol i ddysgu'r Gymraeg mewn cyfnod byr i fewnfudwyr fel y bo iddynt gymathu'n hwylus i ethos Gymraeg ein hysgolion."**

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i'r cynnig, sef:-

**"Gan gydnabod a chondemnio yn llwyr y toriadau ariannol erchyll mae Llywodraeth Cymru wedi orfodi ar gynghorau lleol, yn benodol y toriad i'r grant gwella addysg i Wynedd, ac mai mater i'r Cabinet yw unrhyw benderfyniad ar y mater, bod y Cyngor hwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw gynllun neu fwriad i newid cyfansoddiad, trefniadaeth na staffio Canolfannau Iaith Gwynedd fyddai'n cael effaith andwyol ar eu gallu digamsyniol i ddysgu'r Gymraeg mewn cyfnod byr i fewnfudwyr ac i gymathu'n hwylus i ethos Gymraeg ein hysgolion. Mae'r Cyngor hefyd yn galw ar y Cabinet i sefydlu trefn fonitro gref – boed newid neu beidio – er sicrhau'r canlyniadau gorau bosib' i'r dysgwyr."**

Esboniodd cynigydd y gwelliant ei fod yn croesawu sylwadau cadarnhaol cynigydd y cynnig gwreiddiol, ond ei fod o'r farn bod y cynnig hwnnw yn ymrwymo'r Cyngor i beidio gwneud unrhyw newid byth i gyfansoddiad, trefniadaeth na staffio'r canolfannau iaith. O bosib' y byddai angen ehangu'r gwasanaeth yn y dyfodol petai yna fwy o fewnfudwyr, neu gellid bod yna lai o alw am y gwasanaeth, ac 'roedd y methodoleg o ddysgu ieithoedd yn datblygu hefyd ac yn sicr o ddatblygu ymhellach eto i'r dyfodol. Hefyd, roedd angen amlygu'r ffaith mai Llywodraeth Cymru, ac nid y Cyngor hwn, sy'n torri'r grant.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Bod angen lobïo Llywodraeth Cymru am fwy o arian i'r cynghorau.
- Bod yr alwad ar y Cabinet i sefydlu trefn fonitro gref yn cryfhau'r cynnig gwreiddiol.
- Bod Llywodraeth San Steffan yn cynnig gwersi Saesneg am ddim i fewnfudwyr ac y dylid galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau'r un ddarpariaeth yng Nghymru o ran yr iaith Gymraeg, yn enwedig os am wireddu'r weledigaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hefyd, yn Ngwynedd, mae'n rhaid i blant sy'n mewnfudo i'r sir gael cwrs Cymraeg cyn gallu ymdopi â'r gwersi yn yr ysgolion.
- Bod Canolfannau Iaith Gwynedd yn enghraifft lachar o ymarfer da, ac yn hytrach na chwtogi, dylai'r Cyngor hwn arddel a meithrin y gwasanaeth.
- Dylai Cabinet y Cyngor ddiogelu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn a galw ar y Llywodraeth i fuddsoddi ar gyfer dyfodol yr iaith.
- Bod y Canolfannau Iaith yn tynnu pwysau oddi ar yr athrawon yn yr ysgolion i ddysgu Cymraeg i'r plant.
- Er bod y gwelliant i'w groesawu, nad oedd yn ddi-wall chwaith a bod y geiriau '*a fyddai'n cael effaith niweidiol ar eu gallu* ...' yn agored i gael eu camddehongli oherwydd y gellid dadlau nad yw'r peth hwn neu'r peth arall yn mynd i gael effaith andwyol ar allu'r unedau i gyflawni eu gwaith.
- Bod y canolfannau iaith yn un o'r pontydd sy'n uno ein cymunedau yng Ngwynedd, ac nid yn unig yn trochi ac yn cymhathu, ond hefyd yn meithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned i'r plant yma.

- Ei bod yn ymddangos mai hanfod y cynllun yw di-swyddo athrawon arbenigol a phrofiadol a phenodi cymorthyddion yn y gobaith y byddent yn gallu cyflawni'r un gwaith i'r un safon. Rhoi cymorth i athrawon yw gwaith cymhorthydd, nid i gymryd eu lle, ac mae'n bwysig, nid yn unig peidio tanseilio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, ond rhoi'r gwaith hwnnw ar seiliau cadarn i'r dyfodol.
- Y dylid anfon neges glir iawn bod rhaid amddiffyn y gwasanaeth hollbwysig hwn, ac amddiffyn ei ansawdd hefyd.
- Bod pawb yn gytûn bod yr iaith Gymraeg yn greiddiol i holl waith y Cyngor a bod ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg yn ddigamsyniol.
- Y dymunid gweld y canolfannau iaith yn gwella ac yn cryfhau i'r dyfodol, a bod y gwelliant yn mynd i gryfhau'r ddarpariaeth.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg:-

- Y gwerthfawrogir y gwaith arbennig sy'n mynd ymlaen yn y canolfannau iaith ond bod yna waith arbennig yn mynd ymlaen yn yr ysgolion cynradd hefyd, yn benodol yn y cyfnod sylfaen gyda phlant yn cychwyn heb air o Gymraeg ac yn diweddu'r cyfnod sylfaen yn gwbl rhugl.
- Bod y Llywodraeth wedi bod yn torri grantiau, ac yn benodol grantiau addysg, ers tua 4 blynedd neu ragor. Gwelwyd gostyngiad o 34% yn y Grant Gwella Addysg mewn 4 blynedd, a thros yr un cyfnod 'roedd y cyfnod sylfaen wedi cael toriad o £1.2m a 70 cymhorthydd wedi colli eu swyddi.
- Bod y toriadau drws cefn yma'n warthus o ran Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi gydag un law ac yn cymryd yn ôl gyda'r llall, ac ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, roedd wedi bod yn lobïo'n gryf ac yn barhaus yn erbyn y toriadau hyn.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant ychwanegol i'r gwelliant a gafodd ei gario, sef i ychwanegu'r geiriad a ganlyn ar ddiwedd y gwelliant:-

**"Yr ydym, fodd bynnag, yn datgan y byddai israddio swyddi athrawon a'u troi yn swyddi cymorthyddion yn niweidiol ac felly yn andwyo ar allu'r unedau i ddysgu'r Gymraeg yn effeithiol, ac felly, ein bod yn gofyn i'r Cabinet sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael er mwyn sicrhau nad yw hynny'n digwydd."**

Nodwyd ei bod yn amhosib' i'r Cyngor gynllunio ei waith tra bo'r system grantiau mewn bodolaeth, a phwysleisiwyd y dylai cynghorwyr, penaethiaid a llywodraethwyr ysgrifennu at yr Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol yn condemnio'r toriadau difrifol i'r grantiau addysg.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ychwanegol ac fe gariodd.

Gan i'r gwelliant ychwanegol gael ei dderbyn, eglurodd y Swyddog Monitro fod y cynnig gwreiddiol wedi'i addasu a bod angen pleidlais bellach gyda geiriad y gwelliant ychwanegol yn hytrach na'r geiriad gwreiddiol. Pleidleisiodd mwyafrif o blaid y cynnig.

**PENDERFYNWYD, gan gydnabod a chondemnio yn llwyr y toriadau ariannol erchyll mae Llywodraeth Cymru wedi orfodi ar gynghorau lleol, yn benodol y toriad i'r grant gwella addysg i Wynedd, ac mai mater i'r Cabinet yw unrhyw benderfyniad ar y mater, bod y Cyngor hwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw gynllun neu fwriad i newid cyfansoddiad, trefniadaeth na staffio Canolfannau Iaith Gwynedd fyddai'n cael effaith andwyol ar eu gallu digamsyniol i ddysgu'r Gymraeg mewn cyfnod byr i fewnfudwyr ac i gymathu'n hwylus i ethos Gymraeg ein hysgolion. Mae'r Cyngor hefyd yn galw ar y Cabinet i sefydlu trefn fonitro gref - boed newid neu beidio - er sicrhau'r canlyniadau gorau bosib' i'r dysgwyr. Yr ydym, fodd bynnag, yn datgan y byddai**

**israddio swyddi athrawon a'u troi yn swyddi cymorthyddion yn niweidiol ac felly yn andwyo ar allu'r unedau i ddysgu'r Gymraeg yn effeithiol, ac felly, ein bod yn gofyn i'r Cabinet sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael er mwyn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.**

(3) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Catrin Wager o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Bellach, mae'r dystiolaeth yn argyhoeddiadol fod newid hinsawdd yn digwydd. Mae newid hinsawdd yn gysylltiedig â digwyddiadau tywydd eithafol, cynnydd yn lefelau'r môr, sychder a llifogydd. Mae canlyniadau cynnydd o dros 1.5°C yn nhymheredd y byd mor eithafol fel bod yn rhaid gwneud y dasg o atal hyn yn brif flaenoriaeth. Mae canfyddiadau astudiaeth 1.5C yr IPCC ym mis Hydref wedi datgan fod gan ddynoliaeth 12 mlynedd i gymryd camau pendant ar newid hinsawdd. Mae dyletswydd ar bob llywodraeth (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) i gyfyngu ar effeithiau negyddol Newid Hinsawdd. Mae goblygiadau ar y Cyngor, dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' i ystyried effaith unrhyw benderfyniad a wna ar y cenedlaethau sydd i ddod. Yn ogystal, mae goblygiadau ar y Cyngor i warchod y cyhoedd.**

**Mae'r Cyngor yn nodi ymhellach:**

- **Bod effaith newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol yn cael eu teimlo yn y sir yn barod.**
- **Mae 23,244 o drigolion Gwynedd yn byw mewn ardal sydd mewn perygl o orlifo.**
- **Dros y ganrif nesaf, disgwylir i lefelau'r môr godi 1.1m.**
- **Yn barod, mae llifogydd yn costio oddeutu £200,000,000 i economi Cymru bob blwyddyn.**
- **Mae tirwedd Gwynedd yn cynnig cyfleoedd i gynhyrchu ynni, adfywio bioamrywiaeth a lliniaru llifogydd dŵr ffo.**

**Felly, penderfyna'r Cyngor i:**
**Wneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddwn yn gwneud hyn drwy:**

- **Ddatgan Argyfwng Hinsawdd.**
- **Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon.**
- **Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon.**
- **Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i leihau allyriadau carbon.**

Nodwyd bod plant a myfyrwyr yn gwbl effro i'r sefyllfa a phwysleisiwyd y dylai aelodau etholedig, fel arweinwyr gwleidyddol, chwarae eu rhan hefyd. Ar sail hynny, cynigiwyd ac eiliwyd i ychwanegu'r geiriad a ganlyn at y cynnig gwreiddiol:-

**"Galw ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd ddi-garbon erbyn 2030."**

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau yma gyda chydsyniad y Cyngor.

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig wedi'i ddiwygio gan aelodau a nododd:-

- Bod allyriadau carbon yn cael effaith ar fioamrywiaeth a'r eco-system hefyd a bod plastigion yn gwneud eu ffordd drwy'r gadwyn fwyd. Tynnwyd sylw at ail weithdy amgylcheddol i'w gynnal ym Mhlas Tan y Bwlch ar 17 Mai.
- Hyd yn oed pe byddem yn cymryd camau pendant ar newid hinsawdd o fewn 12 mlynedd, byddem yn dal i weld yr hinsawdd yn newid am flynyddoedd y tu hwnt i hynny, a bydd plentyn sy'n 10 oed heddiw yn profi rhywbeth na fydd yr un ohonom ni byth yn ei brofi.
- Mai newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i ddyfodol dynolryw a rhaid i ni chwarae ein rhan, fel awdurdod lleol, i arwain y ffordd a gweithredu i leihau'r effaith ar yr hinsawdd a'r amgylchedd a sicrhau dyfodol i'n plant a phlant ein plant.
- Y dymunid gweld y cynnig yn esgor ar gynlluniau ymarferol, e.e. cynlluniau i leihau'r defnydd o geir, ayb.
- Bod angen mynd yn garbon negyddol, drwy blanu mwy o goed, ayb.

Nododd yr Arweinydd y bu'r Cyngor yn flaengar ac yn effeithiol yn y maes gostwng defnydd carbon ers rhai blynyddoedd bellach a bod ganddo darged i wireddu gostyngiad carbon o 40% erbyn 2021, gan arbed £3.3m i'r Cyngor. Awgrymodd hefyd, y gellid edrych ar gynnwys adran dan Adran yr Amgylchedd yng Nghynllun y Cyngor ynglŷn â'r mater newid hinsawdd.

**PENDERFYNWYD bellach, mae'r dystiolaeth yn argyhoeddiadol fod newid hinsawdd yn digwydd. Mae newid hinsawdd yn gysylltiedig â digwyddiadau tywydd eithafol, cynnydd yn lefelau'r môr, sychder a llifogydd. Mae canlyniadau cynnydd o dros 1.5°C yn nhymheredd y byd mor eithafol fel bod yn rhaid gwneud y dasg o atal hyn yn brif flaenoriaeth. Mae canfyddiadau astudiaeth 1.5C yr IPCC ym mis Hydref wedi datgan fod gan ddynoliaeth 12 mlynedd i gymryd camau pendant ar newid hinsawdd. Mae dyletswydd ar bob llywodraeth (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) i gyfyngu ar effeithiau negyddol Newid Hinsawdd. Mae goblygiadau ar y Cyngor, dan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' i ystyried effaith unrhyw benderfyniad a wna ar y cenedlaethau sydd i ddod. Yn ogystal, mae goblygiadau ar y Cyngor i warchod y cyhoedd.**

**Mae'r Cyngor yn nodi ymhellach:**

- **Bod effaith newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol yn cael eu teimlo yn y sir yn barod.**
- **Mae 23,244 o drigolion Gwynedd yn byw mewn ardal sydd mewn perygl o orlifo.**
- **Dros y ganrif nesaf, disgwylir i lefelau'r môr godi 1.1m.**
- **Yn barod, mae llifogydd yn costio oddeutu £200,000,000 i economi Cymru bob blwyddyn.**
- **Mae tirwedd Gwynedd yn cynnig cyfleoedd i gynhyrchu ynni, adfywio bioamrywiaeth a lliniaru llifogydd dŵr ffo.**

**Felly, penderfyna'r Cyngor i:**
**Wneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddwn yn gwneud hyn drwy:**

- **Ddatgan Argyfwng Hinsawdd.**
- **Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon.**
- **Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon.**
- **Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i leihau allyriadau carbon.**
- **Galw ar lywodraeth Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.**

## 17. YMATEB I RYBUDD O GYNNIG BLAENOROL Y CYNGHORYDD JUDITH HUMPHREYS

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – llythyr gan yr Adran Dros Adael yr Undeb Ewropeaidd mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Judith Humphreys i gyfarfod 6 Rhagfyr, 2018 ynglŷn ag ymadawiad y DU o'r UE.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 5.35 y.h.

**CADEIRYDD**

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 935.56 | 1,091.49 | 1,247.41 | 1,403.34 | 1,715.19 | 2,027.05 | 2,338.90 | 2,806.68 | 3,274.46 |
| Aberdyfi | 941.91 | 1,098.90 | 1,255.88 | 1,412.87 | 1,726.84 | 2,040.81 | 2,354.78 | 2,825.74 | 3,296.70 |
| Abergwyngregyn | 934.30 | 1,090.02 | 1,245.73 | 1,401.45 | 1,712.88 | 2,024.32 | 2,335.75 | 2,802.90 | 3,270.05 |
| Abermaw (Barmouth) | 950.55 | 1,108.98 | 1,267.40 | 1,425.83 | 1,742.68 | 2,059.53 | 2,376.38 | 2,851.66 | 3,326.94 |
| Arthog | 930.44 | 1,085.51 | 1,240.59 | 1,395.66 | 1,705.81 | 2,015.95 | 2,326.10 | 2,791.32 | 3,256.54 |
| Y Bala | 938.13 | 1,094.49 | 1,250.84 | 1,407.20 | 1,719.91 | 2,032.62 | 2,345.33 | 2,814.40 | 3,283.47 |
| Bangor | 983.57 | 1,147.50 | 1,311.43 | 1,475.36 | 1,803.22 | 2,131.08 | 2,458.93 | 2,950.72 | 3,442.51 |
| Beddgelert | 937.49 | 1,093.73 | 1,249.98 | 1,406.23 | 1,718.73 | 2,031.22 | 2,343.72 | 2,812.46 | 3,281.20 |
| Betws Garmon | 929.97 | 1,084.97 | 1,239.96 | 1,394.96 | 1,704.95 | 2,014.94 | 2,324.93 | 2,789.92 | 3,254.91 |
| Bethesda | 954.28 | 1,113.33 | 1,272.37 | 1,431.42 | 1,749.51 | 2,067.61 | 2,385.70 | 2,862.84 | 3,339.98 |
| Bontnewydd | 946.01 | 1,103.68 | 1,261.35 | 1,419.02 | 1,734.36 | 2,049.70 | 2,365.03 | 2,838.04 | 3,311.05 |
| Botwnnog | 925.67 | 1,079.95 | 1,234.23 | 1,388.51 | 1,697.07 | 2,005.63 | 2,314.18 | 2,777.02 | 3,239.86 |
| Brithdir & Llanfachreth | 926.90 | 1,081.38 | 1,235.87 | 1,390.35 | 1,699.32 | 2,008.28 | 2,317.25 | 2,780.70 | 3,244.15 |
| Bryncrug | 941.58 | 1,098.51 | 1,255.44 | 1,412.37 | 1,726.23 | 2,040.09 | 2,353.95 | 2,824.74 | 3,295.53 |
| Buan | 928.40 | 1,083.13 | 1,237.87 | 1,392.60 | 1,702.07 | 2,011.53 | 2,321.00 | 2,785.20 | 3,249.40 |
| Caernarfon | 954.82 | 1,113.96 | 1,273.09 | 1,432.23 | 1,750.50 | 2,068.78 | 2,387.05 | 2,864.46 | 3,341.87 |
| Clynnog Fawr | 939.85 | 1,096.49 | 1,253.13 | 1,409.77 | 1,723.05 | 2,036.33 | 2,349.62 | 2,819.54 | 3,289.46 |
| Corris | 935.97 | 1,091.97 | 1,247.96 | 1,403.96 | 1,715.95 | 2,027.94 | 2,339.93 | 2,807.92 | 3,275.91 |
| Criccieth | 947.14 | 1,105.00 | 1,262.85 | 1,420.71 | 1,736.42 | 2,052.14 | 2,367.85 | 2,841.42 | 3,314.99 |
| Dolbenmaen | 937.28 | 1,093.49 | 1,249.71 | 1,405.92 | 1,718.35 | 2,030.77 | 2,343.20 | 2,811.84 | 3,280.48 |
| Dolgellau | 950.04 | 1,108.38 | 1,266.72 | 1,425.06 | 1,741.74 | 2,058.42 | 2,375.10 | 2,850.12 | 3,325.14 |
| Dyffryn Ardudwy | 946.21 | 1,103.92 | 1,261.62 | 1,419.32 | 1,734.72 | 2,050.13 | 2,365.53 | 2,838.64 | 3,311.75 |
| Y Felinheli | 940.53 | 1,097.28 | 1,254.04 | 1,410.79 | 1,724.30 | 2,037.81 | 2,351.32 | 2,821.58 | 3,291.84 |
| Ffestiniog | 999.61 | 1,166.22 | 1,332.82 | 1,499.42 | 1,832.62 | 2,165.83 | 2,499.03 | 2,998.84 | 3,498.65 |
| Y Ganllwyd | 940.60 | 1,097.37 | 1,254.13 | 1,410.90 | 1,724.43 | 2,037.97 | 2,351.50 | 2,821.80 | 3,292.10 |
| Harlech | 976.45 | 1,139.19 | 1,301.93 | 1,464.67 | 1,790.15 | 2,115.63 | 2,441.12 | 2,929.34 | 3,417.56 |
| Llanaelhaearn | 955.05 | 1,114.23 | 1,273.40 | 1,432.58 | 1,750.93 | 2,069.28 | 2,387.63 | 2,865.16 | 3,342.69 |
| Llanbedr | 946.78 | 1,104.58 | 1,262.37 | 1,420.17 | 1,735.76 | 2,051.36 | 2,366.95 | 2,840.34 | 3,313.73 |
| Llanbedrog | 935.24 | 1,091.11 | 1,246.99 | 1,402.86 | 1,714.61 | 2,026.35 | 2,338.10 | 2,805.72 | 3,273.34 |
| Llanberis | 942.07 | 1,099.09 | 1,256.10 | 1,413.11 | 1,727.13 | 2,041.16 | 2,355.18 | 2,826.22 | 3,297.26 |
| Llandwrog | 953.11 | 1,111.96 | 1,270.81 | 1,429.66 | 1,747.36 | 2,065.06 | 2,382.77 | 2,859.32 | 3,335.87 |
| Llandygai | 931.89 | 1,087.20 | 1,242.52 | 1,397.83 | 1,708.46 | 2,019.09 | 2,329.72 | 2,795.66 | 3,261.60 |
| Llanddeiniolen | 929.02 | 1,083.86 | 1,238.69 | 1,393.53 | 1,703.20 | 2,012.88 | 2,322.55 | 2,787.06 | 3,251.57 |
| Llandderfel | 929.53 | 1,084.46 | 1,239.38 | 1,394.30 | 1,704.14 | 2,013.99 | 2,323.83 | 2,788.60 | 3,253.37 |
| Llanegryn | 938.35 | 1,094.74 | 1,251.13 | 1,407.52 | 1,720.30 | 2,033.08 | 2,345.87 | 2,815.04 | 3,284.21 |
| Llanelltyd | 934.81 | 1,090.62 | 1,246.42 | 1,402.22 | 1,713.82 | 2,025.43 | 2,337.03 | 2,804.44 | 3,271.85 |
| Llanengan | 933.21 | 1,088.74 | 1,244.28 | 1,399.81 | 1,710.88 | 2,021.95 | 2,333.02 | 2,799.62 | 3,266.22 |
| Llanfair | 945.47 | 1,103.05 | 1,260.63 | 1,418.21 | 1,733.37 | 2,048.53 | 2,363.68 | 2,836.42 | 3,309.16 |
| Llanfihangel y Pennant | 951.61 | 1,110.22 | 1,268.82 | 1,427.42 | 1,744.62 | 2,061.83 | 2,379.03 | 2,854.84 | 3,330.65 |
| Llanfrothen | 939.47 | 1,096.05 | 1,252.63 | 1,409.21 | 1,722.37 | 2,035.53 | 2,348.68 | 2,818.42 | 3,288.16 |
| Llangelynnin | 933.44 | 1,089.01 | 1,244.59 | 1,400.16 | 1,711.31 | 2,022.45 | 2,333.60 | 2,800.32 | 3,267.04 |
| Llangywer | 936.90 | 1,093.05 | 1,249.20 | 1,405.35 | 1,717.65 | 2,029.95 | 2,342.25 | 2,810.70 | 3,279.15 |
| Llanllechid | 933.13 | 1,088.65 | 1,244.17 | 1,399.69 | 1,710.73 | 2,021.77 | 2,332.82 | 2,799.38 | 3,265.94 |
| Llanllyfni | 940.55 | 1,097.30 | 1,254.06 | 1,410.82 | 1,724.34 | 2,037.85 | 2,351.37 | 2,821.64 | 3,291.91 |
| Llannor | 930.90 | 1,086.05 | 1,241.20 | 1,396.35 | 1,706.65 | 2,016.95 | 2,327.25 | 2,792.70 | 3,258.15 |
| Llanrug | 946.83 | 1,104.63 | 1,262.44 | 1,420.24 | 1,735.85 | 2,051.46 | 2,367.07 | 2,840.48 | 3,313.89 |
| Llanuwchllyn | 938.81 | 1,095.28 | 1,251.75 | 1,408.22 | 1,721.16 | 2,034.10 | 2,347.03 | 2,816.44 | 3,285.85 |
| Llanwnda | 941.29 | 1,098.18 | 1,255.06 | 1,411.94 | 1,725.70 | 2,039.47 | 2,353.23 | 2,823.88 | 3,294.53 |
| Llanycil | 930.78 | 1,085.91 | 1,241.04 | 1,396.17 | 1,706.43 | 2,016.69 | 2,326.95 | 2,792.34 | 3,257.73 |
| Llanystumdwy | 929.03 | 1,083.86 | 1,238.70 | 1,393.54 | 1,703.22 | 2,012.89 | 2,322.57 | 2,787.08 | 3,251.59 |
| Maentwrog | 931.84 | 1,087.15 | 1,242.45 | 1,397.76 | 1,708.37 | 2,018.99 | 2,329.60 | 2,795.52 | 3,261.44 |
| Mawddwy | 934.25 | 1,089.96 | 1,245.67 | 1,401.38 | 1,712.80 | 2,024.22 | 2,335.63 | 2,802.76 | 3,269.89 |
| Nefyn | 946.87 | 1,104.68 | 1,262.49 | 1,420.30 | 1,735.92 | 2,051.54 | 2,367.17 | 2,840.60 | 3,314.03 |
| Pennal | 935.59 | 1,091.53 | 1,247.46 | 1,403.39 | 1,715.25 | 2,027.12 | 2,338.98 | 2,806.78 | 3,274.58 |
| Penrhyndeudraeth | 950.43 | 1,108.83 | 1,267.24 | 1,425.64 | 1,742.45 | 2,059.26 | 2,376.07 | 2,851.28 | 3,326.49 |
| Pentir | 945.52 | 1,103.11 | 1,260.69 | 1,418.28 | 1,733.45 | 2,048.63 | 2,363.80 | 2,836.56 | 3,309.32 |
| Pistyll | 943.93 | 1,101.26 | 1,258.58 | 1,415.90 | 1,730.54 | 2,045.19 | 2,359.83 | 2,831.80 | 3,303.77 |
| Porthmadog | 937.59 | 1,093.85 | 1,250.12 | 1,406.38 | 1,718.91 | 2,031.44 | 2,343.97 | 2,812.76 | 3,281.55 |
| Pwllheli | 945.23 | 1,102.77 | 1,260.31 | 1,417.85 | 1,732.93 | 2,048.01 | 2,363.08 | 2,835.70 | 3,308.32 |
| Talsarnau | 958.91 | 1,118.72 | 1,278.54 | 1,438.36 | 1,758.00 | 2,077.63 | 2,397.27 | 2,876.72 | 3,356.17 |
| Trawsfynydd | 941.10 | 1,097.95 | 1,254.80 | 1,411.65 | 1,725.35 | 2,039.05 | 2,352.75 | 2,823.30 | 3,293.85 |
| Tudweiliog | 927.59 | 1,082.19 | 1,236.79 | 1,391.39 | 1,700.59 | 2,009.79 | 2,318.98 | 2,782.78 | 3,246.58 |
| Tywyn | 954.09 | 1,113.10 | 1,272.12 | 1,431.13 | 1,749.16 | 2,067.19 | 2,385.22 | 2,862.26 | 3,339.30 |
| Waunfawr | 931.75 | 1,087.04 | 1,242.33 | 1,397.62 | 1,708.20 | 2,018.78 | 2,329.37 | 2,795.24 | 3,261.11 |

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,120.96 | 1,307.79 | 1,494.61 | 1,681.44 | 2,055.09 | 2,428.75 | 2,802.40 | 3,362.88 | 3,923.36 |
| Aberdyfi | 1,127.31 | 1,315.20 | 1,503.08 | 1,690.97 | 2,066.74 | 2,442.51 | 2,818.28 | 3,381.94 | 3,945.60 |
| Abergwyngregyn | 1,119.70 | 1,306.32 | 1,492.93 | 1,679.55 | 2,052.78 | 2,426.02 | 2,799.25 | 3,359.10 | 3,918.95 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,135.95 | 1,325.28 | 1,514.60 | 1,703.93 | 2,082.58 | 2,461.23 | 2,839.88 | 3,407.86 | 3,975.84 |
| Arthog | 1,115.84 | 1,301.81 | 1,487.79 | 1,673.76 | 2,045.71 | 2,417.65 | 2,789.60 | 3,347.52 | 3,905.44 |
| Bala | 1,123.53 | 1,310.79 | 1,498.04 | 1,685.30 | 2,059.81 | 2,434.32 | 2,808.83 | 3,370.60 | 3,932.37 |
| Bangor | 1,168.97 | 1,363.80 | 1,558.63 | 1,753.46 | 2,143.12 | 2,532.78 | 2,922.43 | 3,506.92 | 4,091.41 |
| Beddgelert | 1,122.89 | 1,310.03 | 1,497.18 | 1,684.33 | 2,058.63 | 2,432.92 | 2,807.22 | 3,368.66 | 3,930.10 |
| Betws Garmon | 1,115.37 | 1,301.27 | 1,487.16 | 1,673.06 | 2,044.85 | 2,416.64 | 2,788.43 | 3,346.12 | 3,903.81 |
| Bethesda | 1,139.68 | 1,329.63 | 1,519.57 | 1,709.52 | 2,089.41 | 2,469.31 | 2,849.20 | 3,419.04 | 3,988.88 |
| Bontnewydd | 1,131.41 | 1,319.98 | 1,508.55 | 1,697.12 | 2,074.26 | 2,451.40 | 2,828.53 | 3,394.24 | 3,959.95 |
| Botwnnog | 1,111.07 | 1,296.25 | 1,481.43 | 1,666.61 | 2,036.97 | 2,407.33 | 2,777.68 | 3,333.22 | 3,888.76 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,112.30 | 1,297.68 | 1,483.07 | 1,668.45 | 2,039.22 | 2,409.98 | 2,780.75 | 3,336.90 | 3,893.05 |
| Bryncrug | 1,126.98 | 1,314.81 | 1,502.64 | 1,690.47 | 2,066.13 | 2,441.79 | 2,817.45 | 3,380.94 | 3,944.43 |
| Buan | 1,113.80 | 1,299.43 | 1,485.07 | 1,670.70 | 2,041.97 | 2,413.23 | 2,784.50 | 3,341.40 | 3,898.30 |
| Caernarfon | 1,140.22 | 1,330.26 | 1,520.29 | 1,710.33 | 2,090.40 | 2,470.48 | 2,850.55 | 3,420.66 | 3,990.77 |
| Clynnog Fawr | 1,125.25 | 1,312.79 | 1,500.33 | 1,687.87 | 2,062.95 | 2,438.03 | 2,813.12 | 3,375.74 | 3,938.36 |
| Corris | 1,121.37 | 1,308.27 | 1,495.16 | 1,682.06 | 2,055.85 | 2,429.64 | 2,803.43 | 3,364.12 | 3,924.81 |
| Criccieth | 1,132.54 | 1,321.30 | 1,510.05 | 1,698.81 | 2,076.32 | 2,453.84 | 2,831.35 | 3,397.62 | 3,963.89 |
| Dolbenmaen | 1,122.68 | 1,309.79 | 1,496.91 | 1,684.02 | 2,058.25 | 2,432.47 | 2,806.70 | 3,368.04 | 3,929.38 |
| Dolgellau | 1,135.44 | 1,324.68 | 1,513.92 | 1,703.16 | 2,081.64 | 2,460.12 | 2,838.60 | 3,406.32 | 3,974.04 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,131.61 | 1,320.22 | 1,508.82 | 1,697.42 | 2,074.62 | 2,451.83 | 2,829.03 | 3,394.84 | 3,960.65 |
| Y Felinheli | 1,125.93 | 1,313.58 | 1,501.24 | 1,688.89 | 2,064.20 | 2,439.51 | 2,814.82 | 3,377.78 | 3,940.74 |
| Ffestiniog | 1,185.01 | 1,382.52 | 1,580.02 | 1,777.52 | 2,172.52 | 2,567.53 | 2,962.53 | 3,555.04 | 4,147.55 |
| Y Ganllwyd | 1,126.00 | 1,313.67 | 1,501.33 | 1,689.00 | 2,064.33 | 2,439.67 | 2,815.00 | 3,378.00 | 3,941.00 |
| Harlech | 1,161.85 | 1,355.49 | 1,549.13 | 1,742.77 | 2,130.05 | 2,517.33 | 2,904.62 | 3,485.54 | 4,066.46 |
| Llanaelhaearn | 1,140.45 | 1,330.53 | 1,520.60 | 1,710.68 | 2,090.83 | 2,470.98 | 2,851.13 | 3,421.36 | 3,991.59 |
| Llanbedr | 1,132.18 | 1,320.88 | 1,509.57 | 1,698.27 | 2,075.66 | 2,453.06 | 2,830.45 | 3,396.54 | 3,962.63 |
| Llanbedrog | 1,120.64 | 1,307.41 | 1,494.19 | 1,680.96 | 2,054.51 | 2,428.05 | 2,801.60 | 3,361.92 | 3,922.24 |
| Llanberis | 1,127.47 | 1,315.39 | 1,503.30 | 1,691.21 | 2,067.03 | 2,442.86 | 2,818.68 | 3,382.42 | 3,946.16 |
| Llandwrog | 1,138.51 | 1,328.26 | 1,518.01 | 1,707.76 | 2,087.26 | 2,466.76 | 2,846.27 | 3,415.52 | 3,984.77 |
| Llandygai | 1,117.29 | 1,303.50 | 1,489.72 | 1,675.93 | 2,048.36 | 2,420.79 | 2,793.22 | 3,351.86 | 3,910.50 |
| Llanddeiniolen | 1,114.42 | 1,300.16 | 1,485.89 | 1,671.63 | 2,043.10 | 2,414.58 | 2,786.05 | 3,343.26 | 3,900.47 |
| Llandderfel | 1,114.93 | 1,300.76 | 1,486.58 | 1,672.40 | 2,044.04 | 2,415.69 | 2,787.33 | 3,344.80 | 3,902.27 |
| Llanegryn | 1,123.75 | 1,311.04 | 1,498.33 | 1,685.62 | 2,060.20 | 2,434.78 | 2,809.37 | 3,371.24 | 3,933.11 |
| Llanelltyd | 1,120.21 | 1,306.92 | 1,493.62 | 1,680.32 | 2,053.72 | 2,427.13 | 2,800.53 | 3,360.64 | 3,920.75 |
| Llanengan | 1,118.61 | 1,305.04 | 1,491.48 | 1,677.91 | 2,050.78 | 2,423.65 | 2,796.52 | 3,355.82 | 3,915.12 |
| Llanfair | 1,130.87 | 1,319.35 | 1,507.83 | 1,696.31 | 2,073.27 | 2,450.23 | 2,827.18 | 3,392.62 | 3,958.06 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,137.01 | 1,326.52 | 1,516.02 | 1,705.52 | 2,084.52 | 2,463.53 | 2,842.53 | 3,411.04 | 3,979.55 |
| Llanfrothen | 1,124.87 | 1,312.35 | 1,499.83 | 1,687.31 | 2,062.27 | 2,437.23 | 2,812.18 | 3,374.62 | 3,937.06 |
| Llangelynnin | 1,118.84 | 1,305.31 | 1,491.79 | 1,678.26 | 2,051.21 | 2,424.15 | 2,797.10 | 3,356.52 | 3,915.94 |
| Llangywer | 1,122.30 | 1,309.35 | 1,496.40 | 1,683.45 | 2,057.55 | 2,431.65 | 2,805.75 | 3,366.90 | 3,928.05 |
| Llanllechid | 1,118.53 | 1,304.95 | 1,491.37 | 1,677.79 | 2,050.63 | 2,423.47 | 2,796.32 | 3,355.58 | 3,914.84 |
| Llanllyfni | 1,125.95 | 1,313.60 | 1,501.26 | 1,688.92 | 2,064.24 | 2,439.55 | 2,814.87 | 3,377.84 | 3,940.81 |
| Llannor | 1,116.30 | 1,302.35 | 1,488.40 | 1,674.45 | 2,046.55 | 2,418.65 | 2,790.75 | 3,348.90 | 3,907.05 |
| Llanrug | 1,132.23 | 1,320.93 | 1,509.64 | 1,698.34 | 2,075.75 | 2,453.16 | 2,830.57 | 3,396.68 | 3,962.79 |
| Llanuwchllyn | 1,124.21 | 1,311.58 | 1,498.95 | 1,686.32 | 2,061.06 | 2,435.80 | 2,810.53 | 3,372.64 | 3,934.75 |
| Llanwnda | 1,126.69 | 1,314.48 | 1,502.26 | 1,690.04 | 2,065.60 | 2,441.17 | 2,816.73 | 3,380.08 | 3,943.43 |
| Llanycil | 1,116.18 | 1,302.21 | 1,488.24 | 1,674.27 | 2,046.33 | 2,418.39 | 2,790.45 | 3,348.54 | 3,906.63 |
| Llanystumdwy | 1,114.43 | 1,300.16 | 1,485.90 | 1,671.64 | 2,043.12 | 2,414.59 | 2,786.07 | 3,343.28 | 3,900.49 |
| Maentwrog | 1,117.24 | 1,303.45 | 1,489.65 | 1,675.86 | 2,048.27 | 2,420.69 | 2,793.10 | 3,351.72 | 3,910.34 |
| Mawddwy | 1,119.65 | 1,306.26 | 1,492.87 | 1,679.48 | 2,052.70 | 2,425.92 | 2,799.13 | 3,358.96 | 3,918.79 |
| Nefyn | 1,132.27 | 1,320.98 | 1,509.69 | 1,698.40 | 2,075.82 | 2,453.24 | 2,830.67 | 3,396.80 | 3,962.93 |
| Pennal | 1,120.99 | 1,307.83 | 1,494.66 | 1,681.49 | 2,055.15 | 2,428.82 | 2,802.48 | 3,362.98 | 3,923.48 |
| Penrhyndeudraeth | 1,135.83 | 1,325.13 | 1,514.44 | 1,703.74 | 2,082.35 | 2,460.96 | 2,839.57 | 3,407.48 | 3,975.39 |
| Pentir | 1,130.92 | 1,319.41 | 1,507.89 | 1,696.38 | 2,073.35 | 2,450.33 | 2,827.30 | 3,392.76 | 3,958.22 |
| Pistyll | 1,129.33 | 1,317.56 | 1,505.78 | 1,694.00 | 2,070.44 | 2,446.89 | 2,823.33 | 3,388.00 | 3,952.67 |
| Porthmadog | 1,122.99 | 1,310.15 | 1,497.32 | 1,684.48 | 2,058.81 | 2,433.14 | 2,807.47 | 3,368.96 | 3,930.45 |
| Pwllheli | 1,130.63 | 1,319.07 | 1,507.51 | 1,695.95 | 2,072.83 | 2,449.71 | 2,826.58 | 3,391.90 | 3,957.22 |
| Talsarnau | 1,144.31 | 1,335.02 | 1,525.74 | 1,716.46 | 2,097.90 | 2,479.33 | 2,860.77 | 3,432.92 | 4,005.07 |
| Trawsfynydd | 1,126.50 | 1,314.25 | 1,502.00 | 1,689.75 | 2,065.25 | 2,440.75 | 2,816.25 | 3,379.50 | 3,942.75 |
| Tudweiliog | 1,112.99 | 1,298.49 | 1,483.99 | 1,669.49 | 2,040.49 | 2,411.49 | 2,782.48 | 3,338.98 | 3,895.48 |
| Tywyn | 1,139.49 | 1,329.40 | 1,519.32 | 1,709.23 | 2,089.06 | 2,468.89 | 2,848.72 | 3,418.46 | 3,988.20 |
| Waunfawr | 1,117.15 | 1,303.34 | 1,489.53 | 1,675.72 | 2,048.10 | 2,420.48 | 2,792.87 | 3,351.44 | 3,910.01 |

**Cynnydd yn y Dreth Cyngor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community**

| Cymuned/ Community | Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D) | Praesept / Precept £ | Treth Cymuned / Community Tax | Treth Gwynedd / Gwynedd Tax | Treth Heddlu / Police Tax | Cyfanswm / Total (Band D) 2019/20 | Band D 2018/19 | Cynnydd / Increase 18/19 - 19/20 | Cynnydd / Increase % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 553.03 | 15,000 | 27.12 | 1,376.22 | 278.10 | 1,681.44 | 1,585.53 | 95.91 | 6.0% |
| Aberdyfi | 977.73 | 35,829 | 36.65 | 1,376.22 | 278.10 | 1,690.97 | 1,593.44 | 97.53 | 6.1% |
| Abergwyngregyn | 118.92 | 3,000 | 25.23 | 1,376.22 | 278.10 | 1,679.55 | 1,584.53 | 95.02 | 6.0% |
| Abermaw (Barmouth) | 1,154.94 | 57,300 | 49.61 | 1,376.22 | 278.10 | 1,703.93 | 1,606.16 | 97.77 | 6.1% |
| Arthog | 617.35 | 12,000 | 19.44 | 1,376.22 | 278.10 | 1,673.76 | 1,577.60 | 96.16 | 6.1% |
| Y Bala | 774.71 | 24,000 | 30.98 | 1,376.22 | 278.10 | 1,685.30 | 1,589.63 | 95.67 | 6.0% |
| Bangor | 3,885.63 | 385,216 | 99.14 | 1,376.22 | 278.10 | 1,753.46 | 1,657.38 | 96.08 | 5.8% |
| Beddgelert | 316.54 | 9,500 | 30.01 | 1,376.22 | 278.10 | 1,684.33 | 1,585.38 | 98.95 | 6.2% |
| Betws Garmon | 138.73 | 2,600 | 18.74 | 1,376.22 | 278.10 | 1,673.06 | 1,577.73 | 95.33 | 6.0% |
| Bethesda | 1,674.96 | 92,455 | 55.20 | 1,376.22 | 278.10 | 1,709.52 | 1,598.82 | 110.70 | 6.9% |
| Bontnewydd | 432.27 | 18,500 | 42.80 | 1,376.22 | 278.10 | 1,697.12 | 1,596.64 | 100.48 | 6.3% |
| Botwnnog | 447.42 | 5,500 | 12.29 | 1,376.22 | 278.10 | 1,666.61 | 1,570.72 | 95.89 | 6.1% |
| Brithdir & Llanfachreth | 424.51 | 6,000 | 14.13 | 1,376.22 | 278.10 | 1,668.45 | 1,572.86 | 95.59 | 6.1% |
| Bryncrug | 341.95 | 12,360 | 36.15 | 1,376.22 | 278.10 | 1,690.47 | 1,593.65 | 96.82 | 6.1% |
| Buan | 228.88 | 3,750 | 16.38 | 1,376.22 | 278.10 | 1,670.70 | 1,574.97 | 95.74 | 6.1% |
| Caernarfon | 3,543.60 | 198,488 | 56.01 | 1,376.22 | 278.10 | 1,710.33 | 1,615.00 | 95.33 | 5.9% |
| Clynnog Fawr | 447.08 | 15,000 | 33.55 | 1,376.22 | 278.10 | 1,687.87 | 1,585.43 | 102.44 | 6.5% |
| Corris | 303.66 | 8,425 | 27.74 | 1,376.22 | 278.10 | 1,682.06 | 1,582.91 | 99.15 | 6.3% |
| Criccieth | 944.01 | 42,000 | 44.49 | 1,376.22 | 278.10 | 1,698.81 | 1,597.04 | 101.77 | 6.4% |
| Dolbenmaen | 606.10 | 18,000 | 29.70 | 1,376.22 | 278.10 | 1,684.02 | 1,578.04 | 105.98 | 6.7% |
| Dolgellau | 1,228.41 | 60,000 | 48.84 | 1,376.22 | 278.10 | 1,703.16 | 1,602.29 | 100.87 | 6.3% |
| Dyffryn Ardudwy | 812.10 | 35,000 | 43.10 | 1,376.22 | 278.10 | 1,697.42 | 1,595.90 | 101.52 | 6.4% |
| Y Felinheli | 1,157.21 | 40,000 | 34.57 | 1,376.22 | 278.10 | 1,688.89 | 1,589.03 | 99.86 | 6.3% |
| Ffestiniog | 1,745.06 | 215,000 | 123.20 | 1,376.22 | 278.10 | 1,777.52 | 1,673.43 | 104.09 | 6.2% |
| Y Ganllwyd | 86.50 | 3,000 | 34.68 | 1,376.22 | 278.10 | 1,689.00 | 1,592.01 | 96.99 | 6.1% |
| Harlech | 791.40 | 70,000 | 88.45 | 1,376.22 | 278.10 | 1,742.77 | 1,647.50 | 95.27 | 5.8% |
| Llanaelhaearn | 443.57 | 25,000 | 56.36 | 1,376.22 | 278.10 | 1,710.68 | 1,614.09 | 96.59 | 6.0% |
| Llanbedr | 322.90 | 14,193 | 43.95 | 1,376.22 | 278.10 | 1,698.27 | 1,602.74 | 95.53 | 6.0% |
| Llanbedrog | 713.19 | 19,000 | 26.64 | 1,376.22 | 278.10 | 1,680.96 | 1,583.58 | 97.38 | 6.1% |
| Llanberis | 759.06 | 28,000 | 36.89 | 1,376.22 | 278.10 | 1,691.21 | 1,589.72 | 101.49 | 6.4% |
| Llandwrog | 1,029.14 | 55,000 | 53.44 | 1,376.22 | 278.10 | 1,707.76 | 1,605.84 | 101.92 | 6.3% |
| Llandygai | 990.62 | 21,408 | 21.61 | 1,376.22 | 278.10 | 1,675.93 | 1,580.76 | 95.17 | 6.0% |
| Llanddeiniolen | 1,836.69 | 31,800 | 17.31 | 1,376.22 | 278.10 | 1,671.63 | 1,573.00 | 98.63 | 6.3% |
| Llandderfel | 497.72 | 9,000 | 18.08 | 1,376.22 | 278.10 | 1,672.40 | 1,576.18 | 96.22 | 6.1% |
| Llanegryn | 159.72 | 5,000 | 31.30 | 1,376.22 | 278.10 | 1,685.62 | 1,590.20 | 95.42 | 6.0% |
| Llanelltyd | 288.42 | 7,500 | 26.00 | 1,376.22 | 278.10 | 1,680.32 | 1,584.59 | 95.73 | 6.0% |
| Llanengan | 2,119.89 | 50,000 | 23.59 | 1,376.22 | 278.10 | 1,677.91 | 1,581.80 | 96.11 | 6.1% |
| Llanfair | 309.59 | 13,000 | 41.99 | 1,376.22 | 278.10 | 1,696.31 | 1,599.14 | 97.17 | 6.1% |
| Llanfihangel y Pennant | 216.38 | 11,078 | 51.20 | 1,376.22 | 278.10 | 1,705.52 | 1,608.04 | 97.48 | 6.1% |
| Llanfrothen | 221.28 | 7,300 | 32.99 | 1,376.22 | 278.10 | 1,687.31 | 1,586.61 | 100.70 | 6.3% |
| Llangelynnin | 409.42 | 9,800 | 23.94 | 1,376.22 | 278.10 | 1,678.26 | 1,582.62 | 95.64 | 6.0% |
| Llangywer | 137.30 | 4,000 | 29.13 | 1,376.22 | 278.10 | 1,683.45 | 1,586.42 | 97.03 | 6.1% |
| Llanllechid | 340.89 | 8,000 | 23.47 | 1,376.22 | 278.10 | 1,677.79 | 1,580.42 | 97.37 | 6.2% |
| Llanllyfni | 1,411.04 | 48,826 | 34.60 | 1,376.22 | 278.10 | 1,688.92 | 1,587.11 | 101.81 | 6.4% |
| Llannor | 901.93 | 18,160 | 20.13 | 1,376.22 | 278.10 | 1,674.45 | 1,576.83 | 97.62 | 6.2% |
| Llanrug | 1,135.80 | 50,000 | 44.02 | 1,376.22 | 278.10 | 1,698.34 | 1,595.55 | 102.79 | 6.4% |
| Llanuwchllyn | 312.51 | 10,000 | 32.00 | 1,376.22 | 278.10 | 1,686.32 | 1,590.15 | 96.17 | 6.0% |
| Llanwnda | 783.86 | 28,000 | 35.72 | 1,376.22 | 278.10 | 1,690.04 | 1,590.59 | 99.45 | 6.3% |
| Llanycil | 200.54 | 4,000 | 19.95 | 1,376.22 | 278.10 | 1,674.27 | 1,579.02 | 95.25 | 6.0% |
| Llanystumdwy | 866.24 | 15,000 | 17.32 | 1,376.22 | 278.10 | 1,671.64 | 1,575.79 | 95.85 | 6.1% |
| Maentwrog | 280.90 | 6,051 | 21.54 | 1,376.22 | 278.10 | 1,675.86 | 1,579.90 | 95.96 | 6.1% |
| Mawddwy | 350.59 | 8,820 | 25.16 | 1,376.22 | 278.10 | 1,679.48 | 1,583.01 | 96.47 | 6.1% |
| Nefyn | 1,474.65 | 65,000 | 44.08 | 1,376.22 | 278.10 | 1,698.40 | 1,599.90 | 98.50 | 6.2% |
| Pennal | 220.86 | 6,000 | 27.17 | 1,376.22 | 278.10 | 1,681.49 | 1,585.11 | 96.38 | 6.1% |
| Penrhyndeudraeth | 772.99 | 38,200 | 49.42 | 1,376.22 | 278.10 | 1,703.74 | 1,604.80 | 98.94 | 6.2% |
| Pentir | 1,188.82 | 50,000 | 42.06 | 1,376.22 | 278.10 | 1,696.38 | 1,602.59 | 93.79 | 5.9% |
| Pistyll | 252.01 | 10,000 | 39.68 | 1,376.22 | 278.10 | 1,694.00 | 1,592.13 | 101.87 | 6.4% |
| Porthmadog | 2,014.59 | 60,759 | 30.16 | 1,376.22 | 278.10 | 1,684.48 | 1,586.54 | 97.94 | 6.2% |
| Pwllheli | 1,753.45 | 73,000 | 41.63 | 1,376.22 | 278.10 | 1,695.95 | 1,600.17 | 95.78 | 6.0% |
| Talsarnau | 321.85 | 20,000 | 62.14 | 1,376.22 | 278.10 | 1,716.46 | 1,620.16 | 96.30 | 5.9% |
| Trawsfynydd | 507.98 | 18,000 | 35.43 | 1,376.22 | 278.10 | 1,689.75 | 1,594.17 | 95.58 | 6.0% |
| Tudweiliog | 461.40 | 7,000 | 15.17 | 1,376.22 | 278.10 | 1,669.49 | 1,571.43 | 98.06 | 6.2% |
| Tywyn | 1,605.03 | 88,125 | 54.91 | 1,376.22 | 278.10 | 1,709.23 | 1,613.15 | 96.08 | 6.0% |
| Waunfawr | 560.86 | 12,000 | 21.40 | 1,376.22 | 278.10 | 1,675.72 | 1,579.56 | 96.16 | 6.1% |

| Awdurdod | 2019/20 | 2018/19 | | Authority |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | 1,376.22 | 1,300.53 | 5.8% | Gwynedd Council |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 278.10 | 258.12 | 7.74% | North Wales Police & Crime Commissioner |
| Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd) | 45.14 | 42.38 | 6.5% | Community Councils (Average) |
| Cyfanswm | 1,699.46 | 1,601.03 | 6.1% | Total |